Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canlyniadau Arolwg yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghylch Dulliau Lladd yng Nghymru a Lloegr

Chwefror 2019

© Hawlfraint y Goron 2019

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw ddiwyg neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.3. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost at PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://beta.gov.wales/slaughter-method-survey-report-2018-england-and-wales

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom ar

E-bost: companionanimalwelfare@gov.wales

neu

Cangen Fframwaith a Lles Anifeiliaid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

https://beta.llyw.cymru/lles-anifeiliaid

Cynnwys

Dulliau lladd yng Nghymru a Lloegr 2018 1

Nodiadau cefndir 1

Canfyddiadau allweddol 2

1. Nifer yr anifeiliaid a laddwyd yn ystod cyfnod yr arolwg 4

2. O ble daeth yr anifeiliaid 5

3. Sut y lladdwyd yr anifeiliaid 6

Pa gyfran o'r anifeiliaid a laddwyd gan ddefnyddio dull heb stynio? 8

Pa gyfran o'r anifeiliaid a laddwyd gan ddefnyddio dull lladd crefyddol (gan gynnwys stynio a heb stynio)? 9

4. I ble y dosbarthwyd y cig 10

A oedd gwahaniaethau o ran ble y cafodd y cig ei ddosbarthu iddo o gymharu dulliau stynio a heb stynio o ladd? 13

Ar gyfer lladd Halal, a yw cyrchfan y cig yn wahanol o gymharu dulliau lladd drwy stynio a heb stynio? 16

Pa gyfran o anifeiliaid a gafodd eu lladd gan ddefnyddio dull lladd crefyddol heb stynio a gafodd eu gwrthod wedyn fel rhai anaddas i'w bwyta at ddibenion crefyddol, ond yn addas i'w bwyta'n ehangach? 18

5. Cynlluniau gwarantu trydydd parti a chyrff ardystio 22

Faint o ladd-dai sy'n aelodau o gynlluniau gwarantu trydydd parti? 22

Atodiad A: Diffiniadau 26

Atodiad B: Problemau data 27

Atodiad C: Y gwledydd yr allforiwyd iddynt a grybwyllwyd yn yr arolwg 29

Atodiad D: Siartiau llif yn rhoi manylion pob dull o ladd, fesul rhywogaeth 40

Dulliau lladd yng Nghymru a Lloegr 2018

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar arolwg yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a gynhaliwyd ym mhob lladd-dy sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod rhwng 29 Ionawr 2018 a 4 Chwefror 2018 gan gynnwys y dyddiadau hynny, ar ran Defra a Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd yr arolwg gan y Milfeddygon Swyddogol yn y lladd-dai, gan ddefnyddio'r wybodaeth y bu modd iddynt ei chael gan y Gweithredwr Busnes Bwyd. Cafwyd cyfradd ddychwelyd o 100% o bob lleoliad sy'n lladd anifeiliaid a drafodir yn yr adroddiad hwn naill ai ar ffurf ymateb neu ddatganiad yn dangos nad oedd y lleoliad yn weithredol yn ystod wythnos yr arolwg. Mae nifer yr anifeiliaid a laddwyd yr wythnos honno i'w gweld yn Nhabl 1.1 ar dudalen 6 yr adroddiad hwn.

Canolbwyntiodd yr arolwg ar y niferoedd a aeth drwy'r lladd-dai, dulliau lladd (gan gynnwys lladd drwy stynio a lladd heb stynio a rhai meysydd ychwanegol megis o ble daw'r da byw ac i ble mae'r cig yn cael ei ddosbarthu gan gynnwys allforion. Roedd yn cynnwys yr holl rywogaethau a ffermir a cheffylau, ond nid yn cynnwys adar hela a cheirw.

Cyn yr arolwg hwn, yn 2013 y cynhaliwyd arolwg diwethaf yr ASB o ladd-dai. Bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf hon mewn sawl ffordd, gan gynnwys i ffurfio polisi yn y dyfodol.

Diffinnir "stynio" yn rheoliad lladd yr UE[1] fel proses sy'n peri i'r anifail golli ymwybyddiaeth a synhwyredd heb boen, gan gynnwys unrhyw broses sy'n arwain at farwolaeth ar unwaith. Rhestrir gwahanol ddulliau o stynio yn rheoliad lladd yr UE a gymeradwyir i'w defnyddio mewn lladd-dai. Mae rhai dulliau stynio'n achosi anymwybyddiaeth a marwolaeth, ac mae eraill yn achosi anymwybyddiaeth ac felly fe'u gelwir yn "stynio syml". Rhaid defnyddio dull lladd megis gwaedu neu bithio ar ôl proses stynio syml.

Mae rheoliad lladd yr UE a rheoliadau'r DU yn caniatáu i Iddewon a Mwslimiaid ladd heb stynio, yn unol â defodau crefyddol, ar yr amod y bodlonir amodau penodol.

Nodiadau cefndir

Yn yr adroddiad hwn mae lladd "safonol" yn cyfeirio at unrhyw fath o ladd drwy stynio nad yw'n grefyddol. Mae lladd Halal yn cynnwys lladd drwy stynio a heb stynio, tra bo lladd Shechita yn golygu lladd heb stynio bob tro. Mae rhestr o ddulliau lladd a ystyrir yn lladd drwy stynio a rhai a ystyrir yn lladd heb stynio at ddibenion yr adroddiad hwn i'w gweld yn Atodiad A.

Cyfeirir at ladd drwy stynio, sy'n cynnwys lladd safonol a lladd Halal drwy stynio, fel "stynio cyn lladd" yn yr adroddiad hwn.

Lle trafodir allforion yn yr adroddiad hwn mae hyn yn cyfeirio at allforion uniongyrchol a rhai a anfonir at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w hallforio.

---

[1] Rheoliad EC 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd

Mae nifer o broblemau gyda'r arolwg a allai effeithio ar ddibynadwyedd y dadansoddiad a ddarperir yn yr adroddiad hwn, yn arbennig problemau gyda'r cwestiynau sy'n ymwneud ag allforion. Amlinellir pob problem o'r fath yn Atodiad B.

Mae'r arolwg hwn wedi'i seilio ar un wythnos a ddewiswyd gyda'r bwriad ei bod yn gynrychioliadol o'r flwyddyn gyfan, gan osgoi unrhyw wyliau crefyddol.

NODER: Mae holl ganfyddiadau'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Gymru a Lloegr gyda'i gilydd. Sylwch fod yr holl ladd heb stynio y cafwyd gwybod amdanynt wedi digwydd yn Lloegr a ni chanfuwyd i unrhyw rywogaeth gael ei lladd heb stynio yng Nghymru.

Canfyddiadau allweddol

O ble daeth yr anifeiliaid (Pennod 2)

- Daeth y rhan fwyaf o'r gwartheg (67%) o ffermydd, gydag 13% yn dod o farchnadoedd.
- Daeth llai na thraean (31%) o loi yn uniongyrchol o ffermydd, gyda'r mwyafrif (58%) yn dod drwy werthwyr.
- O ran y gwahanol rywogaethau o ddofednod ac yn achos moch, daeth bron pob anifail o ffermydd (98% neu fwy ym mhob achos).
- Daeth 37% o ddefaid yn uniongyrchol o ffermyd, gyda bron i hanner (47%) yn dod o farchnadoedd.

Sut y lladdwyd yr anifeiliaid (Pennod 3 ac Atodiad D)

- Yn achos pob rhywogaeth, cafodd mwyafrif yr anifeiliaid eu stynio cyn eu lladd.
- Cafodd 99% o wartheg eu stynio cyn eu lladd, gydag 80% yn cael eu stynio gan ddefnyddio bollt-ddryll.
- Cafodd 97% o loi eu stynio cyn eu lladd, gyda 89% yn cael eu stynio gan ddefnyddio bollt-ddryll.
- Cafodd 75% o ddefaid eu stynio cyn eu lladd drwy stynio trydanol i'r pen yn bennaf. Defaid oedd y rhywogaeth sydd â'r gyfran fwyaf o anifeiliaid a gafodd eu lladd drwy ddulliau heb stynio (25%), gyda bron y cyfan yn Halal. Ar gyfer yr holl rywogaethau eraill, roedd y gyfran o ladd heb stynio'n 10% ar y mwyaf (gweler Ffigur 3.2).
- Cafodd 86% o foch eu stynio â chrynodiad uchel o CO_2 gyda bron y cyfan o'r 14% oedd yn weddill yn cael eu stynio drwy electronarcosis.
- Ieir bwyta oedd y rhywogaeth a laddwyd fwyaf o ran niferoedd o bell ffordd. O'r 18 miliwn o'r ieir bwyta a gafodd eu lladd, cafodd tua 70% eu stynio drwy ddefnyddio nwy a chafodd 10% eu lladd gan ddefnyddio dulliau heb stynio, ac roedd bron y cyfan ohonynt hwy'n Halal heb stynio, gan gynnwys bath dŵr Halal nad oedd yn defnyddio'r un paramedrau â lladd safonol mewn bath dŵr (gweler Ffigwr 3.2).
- Cafodd dros 800,000 o ieir hesb (ieir nad ydynt yn dodwy mwyach) eu lladd a chafodd 92% o'r rhain eu stynio â CO_2 neu â chymysgeddau eraill o nwyon.

I ble y cafodd y cig ei anfon (Pennod 4)

- Arhosodd 56% o’r cig eidion o fewn y DU, a’i ddosbarthu naill ai trwy fasnachwyr cyfanwerthu, archfarchnadoedd neu gyrchfannau eraill yn y DU. Allforiwyd 8% o’r cig eidion trwy fasnachwyr cyfanwerthu a chafodd 3% ei allforio'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na roddwyd cyrchfan ar gyfer traean (33%) o’r cig eidion. Aeth y rhan fwyaf o gig eidion a allforiwyd i wledydd yr UE, gan gynnwys Ffrainc, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg.
- Arhosodd dros hanner (53%) y cig llo o fewn y DU, a’i ddosbarthu naill ai trwy fasnachwyr cyfanwerthu, archfarchnadoedd neu gyrchfannau eraill yn y DU. Allforiwyd ychydig dan hanner (45%) y cig llo, ac anfonwyd y cyfan i’r UE. Yr unig wledydd yn yr UE a grybwyllwyd gan y tri lladd-dy sy'n allforio i'r UE oedd Gwlad Pwyl a'r Iseldiroedd.
- Arhosodd 66% o’r porc yn y DU, a’i ddosbarthu naill ai trwy fasnachwyr cyfanwerthu, archfarchnadoedd neu gyrchfannau eraill yn y DU. Allforiwyd 18% o’r porc, gyda 7% yn mynd i wledydd yr UE ac 11% yn mynd i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE, yn bennaf UDA ac Asia, gan gynnwys Tsieina a Hong Kong.
- Arhosodd 56% o’r cig dafad yn y DU, a’i ddosbarthu naill ai trwy fasnachwyr cyfanwerthu, archfarchnadoedd neu gyrchfannau eraill yn y DU. Allforiwyd chwarter (25%) yr holl gig dafad (naill ai'n uniongyrchol neu drwy fasnachwr cyfanwerthu i'w allforio). Roedd y rhan fwyaf o bell ffordd o allforion cig dafad yn Halal, ac allforion Halal oedd 20% o'r holl gig dafad a gynhyrchir. Roedd y rhan fwyaf ohono’n deillio o ddefaid a gafodd eu stynio cyn eu lladd, ac allforion Halal wedi’i stynio oedd 14% o'r holl gig dafad a gynhyrchwyd (gweler Ffigur 4.6). Aeth bron yr holl allforion cig dafad i nifer o wledydd yn yr UE (gweler Ffigur 4.1c), a’r rhai a grybwyllwyd amlaf oedd Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg - gweler Ffigur C1.
- Arhosodd 85% o’r cig ieir bwyta yn y DU, a’i ddosbarthu naill ai trwy fasnachwyr cyfanwerthu, archfarchnadoedd neu gyrchfannau eraill yn y DU. Allforiwyd cyfanswm o 7% o gig ieir bwyta, bron i gyd i'r UE (gweler Ffigur 4.1c). Roedd y gyfran o gig ieir bwyta heb ei stynio’n fach iawn (gweler Ffigur 4.2b).

Cynlluniau gwarantu trydydd parti (Pennod 5)

- Mae mwyafrif y lladd-dai dofednod (68%) yn aelodau o leiaf o un cynllun gwarantu trydydd parti o’u cymharu â llai na hanner (48%) y lladd-dai cig coch.
- Y cynlluniau gwarantu trydydd parti amlycaf oedd Tractor Coch a Chonsortiwm Manwerthu Prydain (BRC), a gwyddom fod 32% ac 20% o'r holl ladd-dai’n aelodau o'r cynlluniau hyn yn y drefn honno.

Tystysgrifau Cymhwysedd o’r tu allan i’r DU

Adeg yr arolwg, cofnodwyd 163 o Dystysgrifau Cymhwysedd o’r tu allan i’r DU, gyda 5 ohonynt yng Nghymru.

1. Nifer yr anifeiliaid a laddwyd yn ystod cyfnod yr arolwg

Mae nifer y lladd-dai oedd yn gweithredu a nifer yr anifeiliaid a laddwyd i'w gweld yn Ffigur 1.1 isod.

- Lladdwyd cyfanswm o 19,718,680 o anifeiliaid mewn 248 o leoliadau gweithredu (228 yn Lloegr ac 20 yng Nghymru).
- Ieir i'w bwyta oedd mwyafrif yr anifeiliaid a gafodd eu lladd (91%).

Ffigur 1.1: Anifeiliaid a laddwyd a lladd-dai oedd yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, fesul rhywogaeth anifeiliaid: 29 Ionawr – 4 Chwefror 2018

Rhywogaeth	Nifer a Laddwyd	Lleoliadau Gweithredu
Gwartheg	35,343	145
Lloi	1,245	27
Defaid	244,305	153
Geifr	402	48
Ceffylau	67	1
Moch	176,887	111
Ieir Bwyta	18,012,455	50
Ieir Hesb	803,006	9
Tyrcwn	147,750	11
Dofednod eraill*	297,220	10
Pob rhywogaeth	**19,718,680**	**248**

* Mae Dofednod eraill yn cynnwys hwyaid, ieir gini, gwyddau a soflieir. Ni chaiff soflieir eu hystyried yn anifeiliaid hela gan eu bod yn cael eu ffermio ar gyfer bwyd a'u prosesu mewn lladd-dai pwrpasol.

2. O ble daeth yr anifeiliaid

Dengys Ffigur 2.1 ffynhonnell yr anifeiliaid a laddwyd yn ystod wythnos 29 Ionawr – 4 Chwefror 2018 gan gynnwys y dyddiadau hynny. Mae'r categori “Anhysbys” yn cyfeirio at achosion lle nad yw lladd-dai wedi darparu gwybodaeth neu mae’r wybodaeth yn anghyflawn ynglŷn â lle y cawsant yr anifeiliaid.

- Daeth tua dwy ran o dair (67%) o wartheg yn uniongyrchol o ffermydd.
- Daeth y mwyafrif helaeth o eifr (88%) a moch (98%) yn uniongyrchol o ffermydd.
- Daeth yr holl ddofednod bron iawn yn uniongyrchol o ffermydd, ac eithrio 2% o’r ieir bwyta nad oedd eu ffynhonnell yn hysbys.

Ffigur 2.1: Dadansoddiad canrannol o'r ffynhonnell, fesul rhywogaeth anifeiliaid

Ar gyfer pob rhywogaeth o Ddofednod, dim ond dau opsiwn oedd yn y dadansoddiad yn ôl ffynhonnell: “Fferm” ac “Arall”. Felly, mae'n bosibl, pe bai’r opsiynau sy'n weddill (“Marchnad” a “Gwerthwr”) wedi'u cynnwys yn yr arolwg, y byddai rhywfaint neu'r cyfan o’r 2% hwn wedi cael eu rhoi yn y ddau opsiwn yma.

3. Sut y lladdwyd yr anifeiliaid

Mae Ffigur 3.1 isod yn crynhoi sut y cafodd pob rhywogaeth ei lladd. Am ddadansoddiad manylach yn ôl dulliau penodol o ladd, gweler Atodiad D.

Ffigur 3.1: Canran yr anifeiliaid a laddwyd, yn ôl dull lladd

Rhywogaeth	Cyfanswm yr anifeiliaid a laddwyd	Fel canran o gyfanswm yr anifeiliaid a laddwyd ar gyfer y rhywogaeth dan sylw						
		Safonol	Styn Halal	Halal Heb Styn	Shechita	Lladd drwy Styn	Lladd Heb Styn	Lladd Crefyddol
		(1)	(2)	(3)	(4)	(1) + (2)	(3) + (4)	(2) + (3) + (4)
Gwartheg	35,343	96.3%	2.6%	0.6%	0.5%	98.9%	1.1%	3.7%
Lloi	1,245	92.9%	3.9%	3.1%	0.2%	96.7%	3.3%	7.1%
Defaid	244,305	28.7%	46.2%	24.9%	0.1%	75.0%	25.0%	71.3%
Geifr	402	62.9%	29.6%	7.5%	-	92.5%	7.5%	37.1%
Ceffylau	67	100.0%	-	-	-	100.0%	-	-
Moch	176,887	100.0%	-	-	-	100.0%	-	-
Ieir Bwyta	18,012,455	77.8%	12.6%	9.4%	0.3%	90.3%	9.7%	22.2%
Ieir Hesb	803,006	92.2%	6.4%	1.4%	-	98.6%	1.4%	7.8%
Tyrcwn	147,750	99.5%	-	-	0.5%	99.5%	0.5%	0.5%
Dofednod Eraill	297,220	98.2%	1.5%	0.0%	0.2%	99.8%	0.2%	1.8%

* Mwy na 0% ond llai na 0.05% - = Dim

Pa gyfran o’r anifeiliaid a laddwyd gan ddefnyddio dull heb stynio?

Ni ddefnyddir stynio o gwbl yn y dull Shechita o ladd, ond defnyddir dulliau o ladd trwy stynio a heb stynio yn y dull Halal o ladd. Dim ond y dulliau stynio sy’n cael eu defnyddio i ladd ceffylau a moch.

- Ym mhob rhywogaeth, cafodd mwyafrif yr anifeiliaid eu stynio cyn eu lladd.
- Ymhlith defaid yr oedd y gyfran fwyaf o anifeiliaid a gafodd eu lladd gan ddefnyddio dull heb stynio (25%), a Halal oedd bron y cwbl ohonynt, gyda llai na 0.5% yn Shechita.
- Lladdwyd 10% o’r ieir bwyta gan ddefnyddio dulliau heb stynio, ond ar gyfer gweddill y dofednod, roedd y gyfran a laddwyd gan ddefnyddio dulliau heb stynio oddeutu 1%.
- Ar gyfer ieir bwyta ac ieir hesb, roedd bron yr holl ladd heb stynio yn Halal. Ar gyfer gweddill y rhywogaethau dofednod, roedd bron yr holl ladd heb stynio yn Shechita.

Ffigur 3.2: Canran yr anifeiliaid a laddwyd drwy ddull heb styn

Pa gyfran o’r anifeiliaid a laddwyd gan ddefnyddio dull lladd crefyddol (gan gynnwys stynio a heb stynio)?

- Ar gyfer bron pob rhywogaeth, cafodd y rhan fwyaf o anifeiliaid eu lladd drwy ddefnyddio dulliau safonol. Yr eithriad yw defaid gyda 71% (173,871) yn cael eu lladd drwy ddull Halal (stynio a heb stynio).

4. I ble y dosbarthwyd y cig

Fel y crybwyllwyd ar dudalen 1, cafwyd problemau gyda'r cwestiynau ynghylch cyrchfan y cig. Amlinellir y problemau hyn yn Atodiad B, paragraffau 2 a 3. Mae'r categori “Anhysbys” ym mhob siart yn y bennod hon yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle nad yw lladd-dai wedi darparu gwybodaeth neu lle maent wedi darparu gwybodaeth anghyflawn ynghylch cyrchfan eu cig.

Dangosir cyrchfan y cig yn sgil lladd pob rhywogaeth yn Ffigur 4.1a.

Ffigur 4.1a: I ble y dosbarthwyd y cig

*Mae Arall DU yn cynnwys cig a anfonwyd i Smithfield, cigyddion eraill, cwsmeriaid unigol, bwytai a chyrchfannau eraill yn y DU.

Ffigur 4.1b: I ble y dosbarthwyd y cig, y dadansoddiad llawn

Rhywogaeth	**Masnachwr Cyfanwerthu**	**Archfarchnad**	**Cigydd**	**Smithfield**	**Cwsmeriaid unigol**	**Bwytai**	**Cyrchfannau eraill yn y DU**	**Masnachwyr Cyfanwerthu I Allforio**	**Allforio Uniongyrchol**	**Anhysbys**
Gwartheg (35,343)	19%	19%	5%	1%	3%	2%	8%	8%	3%	33%
Lloi (1,245)	37%	4%	8%	2%	1%	1%	-	-	45%	2%
Defaid (244,305)	23%	10%	17%	4%	1%	*	-	10%	15%	19%
Geifr (402)	20%	-	45%	-	18%	*	-	-	-	17%
Ceffylau (67)	-	-	-	-	-	-	6%	-	94%	-
Moch (176,887)	30%	14%	4%	*	10%	*	7%	6%	12%	16%
Ieir Bwyta (18,012,455)	26%	40%	5%	1%	*	2%	10%	7%	*	8%
Ieir Hesb (803,006)	41%	-	1%	*	-	-	-	-	56%	2%
Tyrcwn (147,750)	9%	72%	1%	1%	*	4%	*	13%	-	*
Dofednod Eraill (297,220)	27%	57%	1%	*	*	*	*	15%	-	1%

* Mwy na 0% ond llai na 0.5% - = Dim

Gan edrych ar gyfran y cig a allforiwyd ac i ble cafodd ei allforio (gweler Ffigurau 4.1c a C1):

- Cafodd chwarter y cig defaid ei allforio, bron i gyd i'r UE. Crybwyllwyd nifer fawr o wledydd yr UE gan y lladd-dai dan sylw, y rhai a grybwyllwyd amlaf oedd Ffrainc (11 lladd-dy), yr Almaen (8), yr Iseldiroedd (7) a Gwlad Belg (6).
- Mae ychydig dan hanner (45%) y cig llo yn cael ei allforio, ac anfonwyd y cyfan ohono i'r UE. Yr unig wledydd yn yr UE a grybwyllwyd gan y tri lladd-dy sy'n allforio i'r UE oedd Gwlad Pwyl (2 ladd-dy) a'r Iseldiroedd (1).
- Mae 94% o gig ceffyl yn cael ei allforio. Allforiodd yr un lladd-dy a laddodd geffylau ei gig i Wlad Belg a Ffrainc.
- Mae 56% o'r holl gig ieir hesb yn cael ei allforio. Caiff 27% o gig ieir hesb ei allforio i'r UE ac mae 30% yn cael ei allforio i gyrchfannau nad ydynt yn yr UE. Yr unig gyrchfan yn yr UE a grybwyllwyd oedd yr Iseldiroedd (1 lladd-dy). Aeth gweddill y cig ieir hesb a allforiwyd i rannau o Affrica Is-Sahara ac i Hong Kong.

Ffigur 4.1c: Canran y cig a gafodd ei allforio'n uniongyrchol neu ei anfon at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w allforio, wedi'i rannu yn ôl yr UE a'r tu allan i'r UE

Anhysbys = Gwybodaeth heb ei darparu neu wybodaeth anghyflawn (gweler Atodiad B paragraffau 1-2).

A oedd gwahaniaethau o ran i ble y cafodd y cig ei ddosbarthu rhwng dulliau stynio a heb stynio o ladd?

- Ac eithrio ar gyfer defaid, o ran dulliau heb stynio, ychydig iawn os o gwbl o gig gafodd ei allforio (naill ai'n uniongyrchol neu ei anfon at fasnachwyr cyfanwerthu i'w allforio). Mae'r sefyllfa'n wahanol yn achos dulliau stynio o ladd. Yn achos defaid, allforiwyd 24% o gig heb ei stynio
- O ran ieir bwyta a laddwyd drwy stynio a heb eu stynio, anfonwyd y rhan fwyaf o'r cig naill ai at fasnachwyr cyfanwerthu neu archfarchnadoedd yn y DU (68% o'r cig gafodd ei stynio a 56% o'r cig na chafodd ei stynio). Fodd bynnag, roedd y gyfran wedi'i stynio a anfonwyd i archfarchnadoedd (44%) yn fwy na'r gyfran heb ei stynio (4%).

Ffigur 4.2a: I ble y dosbarthwyd cig, lladd drwy stynio

Ffigur 4.2b: I ble y dosbarthwyd y cig, lladd heb stynio

Anhysbys = Gwybodaeth heb ei darparu neu wybodaeth anghyflawn (gweler Atodiad B paragraffau 1-2).

- Ar gyfer bron pob cig a allforiwyd a ddaeth o ddulliau o ladd drwy stynio, roedd y gyfran a anfonwyd i'r UE yn fwy na'r gyfran a anfonwyd i gyrchfannau nad ydynt yn rhan o'r UE. Yr eithriadau i hyn oedd moch (7% i'r UE, 11% y tu allan i'r UE) ac ieir hesb (27% i'r UE, 30% y tu allan i'r UE).
- Mewn cyferbyniad â hyn, anfonwyd yr holl gig a allforiwyd gan ddefnyddio dulliau lladd heb stynio i'r UE.

- Gofynnodd yr arolwg am gyrchfan rhannau-ôl anifeiliaid a gafodd eu lladd drwy'r dull Shechita. Fodd bynnag, nid oedd y cwestiwn hwn yn orfodol ac ychydig iawn o ladd-dai a ymatebodd. Felly, nid yw'n glir p'un a yw'r rhannau-ôl yn cael eu hanfon ymlaen i'w bwyta'n fwy cyffredinol.

Ffigur 4.3: Canran y cig o ladd drwy stynio a oedd naill ai'n cael ei allforio'n uniongyrchol neu'n cael ei anfon at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w allforio, wedi'i rannu yn ôl yr UE a'r tu allan i'r UE

Ar gyfer lladd Halal, a yw cyrchfan y cig yn wahanol o gymharu dulliau lladd drwy stynio a heb stynio?

- Ac eithrio ar gyfer defaid, o ran dulliau Halal heb stynio, ychydig iawn os o gwbl o gig gafodd ei allforio (naill ai'n uniongyrchol neu ei anfon at fasnachwyr cyfanwerthu i'w allforio). Mae'r sefyllfa'n wahanol yn achos dulliau lladd Halal trwy stynio. Yn achos defaid, allforiwyd 24% o gig Halal heb stynio.
- O ran ieir hesb yn arbennig, caiff y mwyafrif helaeth (88%) o gig o ladd Halal drwy stynio ei allforio tra ni chaiff dim o'r cig o ladd Halal heb stynio ei allforio.

Ffigur 4.4a: I ble y dosbarthwyd y cig, stynio Halal

Ffigur 4.4b: I ble y dosbarthwyd y cig, Halal heb stynio

Anhysbys = Gwybodaeth heb ei darparu neu wybodaeth anghyflawn (gweler Atodiad B paragraffau 1-2).

- Defaid yw'r unig rywogaeth yr adroddwyd bod cig o ladd Halal heb stynio'n cael ei allforio. Mae bron i chwarter (24%) o gig dafad Halal heb ei stynio'n cael ei allforio ac mae bron y cyfan ohono'n cael ei anfon i'r UE. Mae 31% o gig dafad Halal wedi'i stynio'n cael ei allforio gyda bron y cyfan ohono'n cael ei anfon i'r UE.
- Ar gyfer lladd defaid Halal drwy stynio a heb stynio, y cyrchfannau mwyaf cyffredin a grybwyllwyd oedd Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg.
- Yr unig rywogaeth y cafodd cig o ladd Halal drwy stynio ei allforio i wledydd y tu allan i'r UE oedd defaid (cyfran fach iawn) ac ieir bwyta (1% o'r cig a gynhyrchwyd).

Ffigur 4.5: Canran y cig o ladd Halal drwy stynio a oedd naill ai'n cael ei allforio'n uniongyrchol neu ei anfon at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w allforio, wedi'i rannu yn ôl yr UE a'r tu allan i'r UE

Pa gyfran o anifeiliaid a gafodd eu lladd gan ddefnyddio dull lladd crefyddol heb stynio a gafodd eu gwrthod wedyn fel rhai anaddas i'w bwyta at ddibenion crefyddol, ond yn addas i'w bwyta'n ehangach?

- Ar gyfer pob rhywogaeth, ni wrthodwyd unrhyw garcasau a laddwyd drwy ddull Halal heb stynio fel rhai nad oeddynt yn addas fel cig Halal heb ei stynio, ond yn addas i'w bwyta'n fwy cyffredinol.
- Ar gyfer rhywogaethau lle'r oedd mwy na 100 o anifeiliaid wedi'u lladd drwy'r dull Shechita, roedd y gyfran o garcasau a wrthodwyd fel rhai anaddas fel cig Kosher ond yn addas i'w bwyta'n fwy cyffredinol fel a ganlyn: 15% o wartheg (24 o blith 164), 27% o ddefaid (60 o blith 222), 3% o ieir bwyta (1263 o blith 50,373), 3% o dyrcwn (21 o blith 769) ac 1% o ddofednod eraill (7 o blith 697).[1]

[1] Gofynnodd yr arolwg am nifer y carcasau ante mortem a phost mortem a wrthodwyd fel cig Kosher ond sy'n addas i'w bwyta'n fwy cyffredinol. Yma, tybiwyd ar gyfer dulliau Shechita nad yw anifeiliaid yn cael eu gwrthod ante mortem am resymau crefyddol, ac felly roedd pob un yr adroddwyd eu bod wedi'u gwrthod yn rhai post mortem.

Ar gyfer defaid, sut mae'r dull lladd yn amrywio rhwng cyrchfannau’r cig?

Edrychir ar ddefaid yn fanylach yma gan mai dyma'r anifail gyda'r gyfran fwyaf o ladd heb stynio.

- O ran archfarchnadoedd a chyfanwerthwyr, roedd y rhan fwyaf o'r cig dafad yn dod o ddulliau lladd drwy stynio tra bod tua hanner yr holl gig dafad sy'n mynd i gyrchfannau eraill yn y DU yn cael ei ladd heb stynio.
- Allforiwyd chwarter (25%) o'r holl gig dafad (naill ai'n uniongyrchol neu drwy fasnachwr cyfanwerthu i'w allforio) ac roedd 24% o'r cig hwn o ddefaid a gafodd eu lladd gan ddefnyddio dulliau heb stynio (roedd hyn yn cyfrif am 6% o'r holl gig dafad a allforiwyd).

Ffigur 4.6: Cig defaid, yn ôl ddull lladd a chyrchfan

Ar gyfer lloi, sut mae'r dull lladd yn amrywio rhwng cyrchfannau’r cig?

- Roedd yr holl allforion cig llo yn dod o ddull lladd safonol.
- Yr unig gyrchfannau y gwyddom iddynt dderbyn cig llo Halal heb stynio oedd cyfanwerthwyr a chigyddion. Ni ddarparwyd cyrchfan yr holl gig llo o ddull lladd Shechita.

Ffigur 4.7: Cig llo, yn ôl dull lladd a chyrchfan

Anhysbys = Gwybodaeth heb ei darparu neu wybodaeth anghyflawn (gweler Atodiad B paragraffau 1-2).

Ar gyfer geifr, sut mae'r dull lladd yn amrywio rhwng cyrchfannau’r cig?

Ffigur 4.8: Cig geifr, yn ôl dull lladd a chyrchfan

Anhysbys = Gwybodaeth heb ei darparu neu wybodaeth anghyflawn (gweler Atodiad B paragraffau 1-2)

5. Cynlluniau gwarantu trydydd parti a chyrff ardystio

Faint o ladd-dai sy'n aelodau o gynlluniau gwarantu trydydd parti?

Ffigur 5.1: Nifer y lladd-dai sy'n aelodau o gynlluniau gwarantu trydydd parti

Cynllun gwarantu trydydd parti	Lladd-dai cig coch[1]	Lladd-dai dofednod	Cyfanswm
Tractor coch	51	29	80
Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC)	31	18	49
Freedom foods (RSPCA)	19	7	26
Cymdeithas y Pridd	15	4	19
Cynlluniau eraill[2]	41	18	59
Heb ei ddatgelu	8	8	16
Pob lladd-dy sy'n aelod o un cynllun o leiaf	**89**	**43**	**132**
Pob lladd-dy nad yw'n aelod o unrhyw gynllun	**96**	**20**	**116**

1. Soniodd un lladd-dy cig coch am ladd dofednod hefyd ond dim ond yn y cyfrif lladd cig coch y cafodd ei gynnwys yn y tabl hwn.
2. Roedd cynlluniau eraill yn cynnwys: British Quality Assured Pork (BQAP), Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) a gwahanol gynlluniau archfarchnadoedd.

- Dywedodd tua hanner (53%) y lladd-dai eu bod yn aelodau o un cynllun gwarantu trydydd parti o leiaf. Dangosir y cynlluniau mwyaf cyffredin yn Ffigur 5.1. Fel arfer, gall lladd-dai fod yn aelodau o nifer o gynlluniau a dyna pam y gall y canrannau fod yn fwy na 100%.
- Mae mwyafrif y lladd-dai dofednod (68%) yn aelodau o gynllun gwarantu trydydd parti o leiaf o'u cymharu â llai na hanner (48%) y lladd-dai cig coch.
- Cynlluniau'r Tractor Coch a Chonsortiwm Manwerthu Prydain (BRC) yw'r cynlluniau gwarantu trydydd parti mwyaf amlwg, gyda 32% yn aelodau o'r cyntaf a 20% yn aelodau o'r ail.

Pa gyrff ardystio y mae lladd-dai Halal a Shechita wedi'u hardystio gyda nhw?

Dangosir y cyrff ardystio a ddefnyddir gan ladd-dai Halal a Shechita yn Ffigurau 5.2 – 5.4 isod.

Ffigur 5.2: Nifer y lladd-dai yn ôl corff ardystio, lladd Halal drwy stynio

Corff ardystio	Nifer y lladd-dai
Awdurdod Bwyd Halal	5
Ymgyngoriaethau Halal	3
Arall	7
Heb ddatgelu	21
Dim	2
Cyfanswm	**38**

Ffigur 5.3: Nifer y lladd-dai yn ôl corff ardystio, lladd Halal heb stynio

Corff ardystio	Nifer y lladd-dai
Pwyllgor Monitro Halal	14
Ymgynghoriaethau Halal	1
Heb ddatgelu	12
Dim	1
Cyfanswm	**28**

Ffigur 5.4: Nifer y lladd-dai yn ôl corff ardystio, lladd Shechita

Corff ardystio	**Nifer y lladd-dai**
Bwrdd Llundain Shechita	2
Beth Din Manceinion	2
Arall	3
Heb ddatgelu	3
Cyfanswm*	**8**

* Nid yw niferoedd y lladd-dai sy'n gysylltiedig â phob corff ardystio yn cyfateb i gyfanswm nifer y lladd-dai, gan fod rhai lladd-dai wedi'u hardystio gyda mwy nag un corff ardystio.

Atodiad A: Diffiniadau

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae dulliau lladd yn cael eu dosbarthu fel lladd drwy stynio a lladd heb stynio fel y nodir yn y tabl isod:

Ffigur A1: Dulliau lladd drwy stynio a heb stynio yn ôl rhywogaeth

Rhywogaeth	**Stynio**	**Heb stynio**
Gwartheg	Bwled rhydd, bollt caeth, Bocs Jarvis a styn Halal.	Styn Halal ar ôl torri, Halal heb styn a dull Shechita.
Lloi	Bwled rhydd, bollt caeth, electronarcosis a styn Halal	Styn Halal ar ôl torri, Halal heb styn a dull Shechita.
Defaid a Geifr	Bwled rhydd, bollt caeth, electronarcosis (pen yn unig), electronarcosis (pen i gorff) a styn Halal.	Styn Halal ar ôl torri, Halal heb styn a dull Shechita.
Moch	Bwled rhydd, gas – CO_2 crynodiad uchel, cymysgeddau nwy eraill, electronarcosis (pen yn unig), electronarcosis (pen i gorff) a bollt caeth.	
Ceffylau	Bwled rhydd a bollt caeth.	
Ieir bwyta, **Ieir hesb,** **Tyrcwn a** **"Dofednod Eraill"**	crynodiad uchel CO_2, CO_2 mewn dau gam, cymysgeddau nwy eraill, stynio trydanol (pen yn unig), bath dŵr (cydymffurfio ag atodiad 1) a bath dŵr Halal (cydymffurfio ag atodiad 1).	Halal heb styn, bath dŵr Halal (ddim yn cydymffurfio ag atodiad 1), dulliau eraill nad ydynt yn cydymffurfio ag atodiad 1 a dull Shechita.

Atodiad B: Problemau data

Gwnaed gwiriadau ar draws yr amrywiol ymatebion a holwyd y Milfeddygon Swyddogol am unrhyw anghysondebau i'w cywiro. Fodd bynnag, mae cywirdeb y canlyniadau'n dibynnu ar y data a ddarperir gan y Gweithredwr Busnes Bwyd drwy'r Milfeddygon Swyddogol. Amlinellir rhai problemau penodol gyda'r arolwg isod neu faterion ehangach a allai fod â goblygiadau o ran dibynadwyedd y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn:

1. Nid oedd llawer o'r cwestiynau yn yr arolwg yn orfodol e.e. cyrchfan y cig ar ôl lladd. Felly, mewn rhai achosion ni ddarparwyd y wybodaeth y gofynnwyd amdani neu roedd yn anghyflawn. Mewn achosion lle na ddarparwyd gwybodaeth am gyrchfan y cig, rhoddwyd y cig hwn mewn categori "Anhysbys".

2. Gofynnodd yr arolwg am y canrannau o gig a anfonwyd at wahanol gyrchfannau yn y DU (gan gynnwys "masnachwr cyfanwerthu ar gyfer allforio"), ond nid oeddent yn cynnwys categori allforio uniongyrchol penodol er mwyn bod yn gyflawn. O ganlyniad, ni ellid cymryd y canran o gig a allforiwyd yn uniongyrchol o'r data'n uniongyrchol ac roedd yn rhaid gwneud tybiaethau:

   - Lle'r oedd swm y dosbarthiad i gyrchfannau yn y DU yn llai na 100%, ac y darparwyd dadansoddiad o allforion yn ôl UE/Nid UE/Anhysbys, tybiwyd bod gweddill y cig wedi'i allforio'n uniongyrchol.
   - Lle'r oedd swm y dosbarthiad i gyrchfannau yn y DU yn llai na 100%, ac ni ddarparwyd unrhyw ddadansoddiad o'r allforion, dyrannwyd y cig heb ei gyfrif i gategori "Anhysbys".
   - Lle rhoddwyd sylwadau gan y Milfeddyg Swyddogol, dehonglwyd y rhain er mwyn penderfynu i ble y dylid dyrannu'r cig heb ei gyfrif.

3. Fel y crybwyllir uchod, ni ofynnwyd yn benodol am ganran y cig oedd yn cael ei allforio'n uniongyrchol ac felly roedd yn rhaid gwneud tybiaeth ynghylch hynny, tra bod canran y cig a anfonwyd at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w allforio wedi'i restru'n benodol fel opsiwn. Mae'r arolwg yn gofyn am rannu allforion yn dri chategori ("UE", "Tu allan i'r UE" ac "Anhysbys"). Y bwriad oedd i hyn gyfeirio at yr holl allforion (allforion uniongyrchol a'r rhai a anfonwyd at fasnachwr cyfanwerthu yn y DU i'w hallforio).

   Roedd y canllawiau a ddarparwyd law yn llaw â'r arolwg yn nodi, os yw cig yn cael ei anfon at fasnachwr cyfanwerthu i'w allforio, y dylid cwblhau'r wybodaeth allforio os yw'n hysbys. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau'n nodi'n benodol, mewn achosion lle'r oedd cig yn cael ei allforio'n uniongyrchol a'i anfon at fasnachwr cyfanwerthu i'w allforio, y dylai'r dadansoddiad allforio a ddarparwyd fod yn cyfeirio at gyfanswm y ddau. Felly, mewn rhai achosion mae'n bosib y gallai'r Milfeddygon Swyddogol fod wedi camddeall yr hyn yr oedd ei angen, ac felly mae'n bosib mai dim ond at y naill gydran neu'r llall y mae'r dadansoddiad allforio'n cyfeirio.

4. Ar gyfer y cwestiynau lle gofynnwyd am ganrannau, mae'n ymddangos fel pe bai rhai ffigurau wedi'u talgrynnu ond nad oedd eraill. O ganlyniad, efallai y bydd y ffigurau, er enghraifft, yn dod i gyfanswm o fwy na 100%. Er mwyn datrys y broblem hon cafodd canrannau ar gyfer lladd-dai unigol eu talgrynnu i'r pwynt canran cyfan agosaf.

5. Er bod y dull dadansoddi yn ôl dull lladd wedi'i roi yn ôl nifer yr anifeiliaid a gafodd eu lladd, rhoddwyd y dadansoddiad yn ôl cyrchfan y cig a oedd yn deillio o hynny fel cyfrannau o'r cyfanswm tunelli. O ganlyniad, rydym yn tybio, os, er enghraifft, y lladdwyd yr un nifer o anifeiliaid gan ddefnyddio dau ddull gwahanol, yna byddai'r ddau ddull yn cynhyrchu swm tebyg o gig i'w fwyta. Mae rhesymau pam na fyddai'r rhagdybiaeth hon yn wir mewn gwirionedd yn cynnwys:

   - Ar gyfer lladd gwartheg, lloi, defaid a geifr gan ddefnyddio'r dull Shechita, ni ddefnyddir y rhannau-ôl at ddibenion bwyta Kosher. Ar gyfer y cwestiwn yn gofyn am gyrchfan y rhannau-ôl, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ystyrlon. Felly, nid yw'n glir p'un a yw'r rhannau-ôl yn cael eu hanfon ymlaen i'w bwyta'n fwy cyffredinol.
   - Efallai y bydd rhai dulliau o ladd yn tueddu i ddefnyddio anifeiliaid llai nag eraill. Felly, nid yw'r ffaith bod yr un nifer o anifeiliaid yn cael eu lladd gan ddefnyddio dau ddull gwahanol, yn golygu bod y ddau ddull yn cynhyrchu swm tebyg o gig o reidrwydd.

   Yn ogystal â hyn, os anfonwyd yr un faint o gig o'r un dull lladd i ddau gyrchfan gwahanol, yna byddai hyn yn cyfateb i'r un nifer o anifeiliaid yn mynd i'r naill gyrchfan a'r llall. Mewn gwirionedd, efallai na fydd hyn yn digwydd oherwydd gall un cyrchfan dueddu i gael anifeiliaid llai na'r llall.

6. Mae anghysondebau yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd rhwng yr arolwg hwn a chronfa ddata codi tâl trwybwn yr ASB. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau hyn yn fach ar gyfer bron pob rhywogaeth, gyda gwahaniaethau o lai na 1% rhwng y ddwy ffynhonnell. Yr eithriadau i hyn yw geifr a cheffylau lle mae niferoedd yr anifeiliaid a laddwyd yn fach. Mae'r tabl isod yn rhoi nifer yr anifeiliaid a laddwyd fesul rhywogaeth dros gyfnod yr arolwg yn ôl y ddwy ffynhonnell.

Ffigur B1: Cymhariaeth o nifer yr anifeiliaid y cofnodwyd eu lladd, rhwng cronfa ddata codi tâl trwybwn yr ASB a'r ymatebion i'r arolwg dulliau lladd 2018

Rhywogaeth	Cronfa ddata codi tâl trwybwn ASB	Arolwg dulliau lladd 2018	% gwahaniaeth
Gwartheg	35,607	35,343	-0.75%
Lloi	1,237	1,245	0.64%
Defaid	244,842	244,305	-0.22%
Geifr	437	402	-8.71%
Ceffylau	66	67	1.49%
Moch	177,406	176,887	-0.29%
Dofednod	19,051,392	19,112,681	0.32%
Tyrcwn	148,634	147,750	-0.60%

Atodiad C: Y gwledydd yr allforiwyd iddynt a grybwyllwyd yn yr arolwg

Ffigwr C1: Nifer y lladd-dai wnaeth grybwyll gwlad fel cyrchfan ar gyfer unrhyw gyfran o'u cig

	Gwartheg	Lloi	Defaid	Ceffylau	Moch	Ieir Bwyta	Ieir Hesb	Tyrcwn	Dofednod Eraill
Tiriogaethau a Dibyniaethau Tramor y DU									
Ynysoedd Virgin Prydain						1			
Gibraltar						1		1	
Ewrop									
Yr Almaen	2		8		1			1	1
Awstria			2						
Denmarc	1				1				1
Yr Eidal	3		4						
Ffrainc	6		11	1	1	2			
Gweriniaeth Iwerddon	2		4		1				
Gwlad Belg	4		6	1	2				
Gwlad Groeg									1
Gwlad Pwyl	1	2			1				
Yr Iseldiroedd	5	1	7		1	2	1		1
Portiwgal			1			1			
Rwmania						1			
Sbaen	1		1			1			
Sweden	1		1			1		1	

Y Swistir			1						
Wcrain						1			
Ewrop (gwlad heb ei nodi)						1			
Gogledd America									
Canada	1								
UDA					5				
Y Caribî									
St. Lucia						1			
St. Vincent						1			
Trinidad a Tobago	1								
Affrica									
Benin							1		
Congo							1		
Gabon	1						1		
Ghana	1								
Guinea	1								
Arfordir Ifori	1								
Liberia							1		
Libya									
Senegal	1								
De Affrica	4				3	1			
Togo							2		
Affrica (gwlad heb ei nodi)								1	

Asia									
Tsieina					4	1			
Georgia									
Hong Kong	6				3	2	2	1	1
Japan					2				
Ynysoedd Philippines	1				1	1			
Singapore	1				1				
De Korea					2				
Gwlad Thai	1								
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig			1						
Fiet-nam						1			
Ynysoedd y De									
Awstralia					1				
Polynesia Ffrengig	1								
Seland Newydd					1				
Cyfanswm lladd-dai'n allforio	**21**	**3**	**24**	**1**	**10**	**12**	**3**	**4**	**3**
Nifer sy'n nodi gwledydd	**12**	**3**	**16**	**1**	**7**	**7**	**3**	**2**	**2**

Ffigur C2: Nifer y lladd-dai wnaeth grybwyll gwlad fel cyrchfan i'w cig lladd safonol

	Gwartheg	Lloi	Defaid	Ceffylau	Moch	Ieir Bwyta	Ieir Hesb	Tyrcwn	Dofednod Eraill
Tiriogaethau a Dibyniaethau Tramor y DU									
Ynysoedd Virgin Prydain						1			
Gibraltar									
Ewrop									
Yr Almaen	2				1			1	1
Awstria									
Denmarc	1				1				1
Yr Eidal	3		1						
Ffrainc	6		2	1	1	3			
Gweriniaeth Iwerddon	2		2		1				
Gwlad Belg	4		1	1	2				
Gwlad Groeg									1
Gwlad Pwyl	1	2			1				
Yr Iseldiroedd	5	1	2		1	3			
Portiwgal						1			
Rwmania						1			
Sbaen	1					2			
Sweden	1								
Y Swistir									

Wcrain						1			
Ewrop (gwlad heb ei nodi)						1			
Gogledd America									
Canada	1								
UDA					5				
Y Caribî									
St. Lucia						1			
St. Vincent						1			
Trinidad a Tobago	1								
Affrica									
Benin							1		
Congo							1		
Gabon	1						1		
Ghana	1								
Guinea	1								
Arfordir Ifori	1								
Liberia							1		
Libya									
Senegal	1								
De Affrica	4				3	1			
Togo							2		
Affrica (gwlad heb ei nodi)								1	
Asia									

De Korea					2				
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig									
Fiet-nam									
Georgia									
Gwlad Thai	1								
Hong Kong	6				3	1	2	1	1
Japan					2				
Singapore	1				1				
Tsieina					4				
Ynysoedd Philippines	1				1	2			
Ynysoedd y De									
Awstralia					1				
Polynesia Ffrengig	1								
Seland Newydd					1				
Cyfanswm lladd-dai'n allforio	**21**	**3**	**11**	**1**	**10**	**7**	**2**	**3**	**2**
Nifer sy'n nodi gwledydd	**12**	**3**	**4**	**1**	**7**	**4**	**2**	**1**	**1**

Ffigur C3: Nifer y lladd-dai wnaeth grybwyll gwlad fel cyrchfan eu cig wedi'i ladd gan ddefnyddio dull Halal (stynio a heb stynio)

	Defaid	Ieir Bwyta	Ieir Hesb	Dofednod Eraill
Tiriogaethau a Dibyniaethau Tramor y DU				
Ynysoedd Virgin Prydain				
Gibraltar				
Ewrop				
Yr Almaen	8			
Awstria	2			
Denmarc				
Yr Eidal	3			
Ffrainc	10			
Gweriniaeth Iwerddon	2			
Gwlad Belg	6			
Gwlad Groeg				
Gwlad Pwyl				
Yr Iseldiroedd	6		1	1
Portiwgal	1			
Rwmania				
Sbaen	1			
Sweden	1			
Y Swistir	1			

Ewrop (gwlad heb ei nodi)				
Gogledd America				
Canada				
UDA				
Y Caribî				
St. Lucia				
St. Vincent				
Trinidad a Tobago				
Affrica				
Benin				
Congo				
Gabon				
Ghana				
Guinea				
Arfordir Ifori				
Liberia				
Libya				
Senegal				
De Affrica				
Togo				
Affrica (gwlad heb ei nodi)				
Asia				

De Korea				
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig	1			
Fiet-nam		1		
Georgia				
Gwlad Thai				
Hong Kong		1		
Japan				
Singapore				
Tsieina		1		
Ynysoedd Philippines				
Ynysoedd y De				
Awstralia				
Polynesia Ffrengig				
Seland Newydd				
Cyfanswm lladd-dai'n allallforio	**14**	**4**	**1**	**1**
Nifer sy'n nodi gwledydd	**13**	**2**	**1**	**1**

Ffigur C4: Nifer y lladd-dai wnaeth grybwyll gwlad fel cyrchfan eu cig wedi'i ladd gan ddefnyddio dull Shechita

	Cywion leir	Tyrcwn
Tiriogaethau a Dibyniaethau Tramor y DU		
Ynysoedd Virgin Prydain		
Gibraltar	1	1
Ewrop		
Awstria		
Gwlad Belg		
Denmarc		
Ffrainc		
Yr Almaen		
Gwlad Groeg		
Yr Eidal		
Yr Iseldiroedd		
Gwlad Pwyl		
Portiwgal		
Gweriniaeth Iwerddon		
Rwmania		
Sbaen		
Sweden	1	1
Y Swistir		
Wcrain		
Ewrop (gwlad heb ei nodi)		
Gogledd America		
Canada		
UDA		
Y Caribî		
St. Lucia		
St. Vincent		
Trinidad a Tobago		

Affrica		
Benin		
Congo		
Gabon		
Ghana		
Guinea		
Arfordir Ifori		
Liberia		
Libya		
Senegal		
De Affrica		
Togo		
Affrica (gwlad heb ei nodi)		
Tsieina		
Georgia		
Asia		
Hong Kong		
Japan		
Ynysoedd Philippines		
Singapore		
De Korea		
Gwlad Thai		
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig		
Fiet-nam		
Ynysoedd y De		
Awstralia		
Polynesia Ffrengig		
Seland Newydd		
Cyfanswm lladd-dai'n allallforio	**1**	**1**
Nifer sy'n nodi gwledydd	**1**	**1**

Ffigur C5: Nifer y lladd-dai wnaeth grybwyll gwlad fel cyrchfan eu cig dafad wedi'u ladd gan ddefnyddio dull Halal, yn ôl stynio a heb stynio

	Stynio	Heb Stynio
Tiriogaethau a Dibyniaethau Tramor y DU		
Ynysoedd Virgin Prydain		
Gibraltar		
Ewrop		
Awstria	2	
Gwlad Belg	3	
Denmarc		
Ffrainc	5	
Yr Almaen	4	
Gwlad Groeg		
Yr Eidal	2	
Yr Iseldiroedd	1	
Gwlad Pwyl		
Portiwgal	1	
Gweriniaeth Iwerddon	2	
Rwmania		
Sbaen	1	
Sweden	1	
Y Swistir	1	
Wcrain		
Ewrop (gwlad heb ei nodi)		
Gogledd America		
Canada		
UDA		
Y Caribi		
St. Lucia		
St. Vincent		
Trinidad a Tobago		

Affrica		
Benin		
Congo		
Gabon		
Ghana		
Guinea		
Arfordir Ifori		
Liberia		
Libya		
Senegal		
De Affrica		
Togo		
Affrica (gwlad heb ei nodi)		
Tsieina		
Georgia		
Asia		
Hong Kong		
Japan		
Ynysoedd Philippines		
Singapore		
De Korea		
Gwlad Thai		
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig	1	
Fiet-nam		
Ynysoedd y De		
Awstralia		
Polynesia Ffrengig		
Seland Newydd		
Cyfanswm lladd-dai'n allallforio	**7**	**8**
Nifer sy'n nodi gwledydd	**7**	**7**

Atodiad D: Siartiau llif yn rhoi manylion pob dull o ladd, fesul rhywogaeth

Ffigur D1: Dulliau lladd ar gyfer gwartheg

Ffigur D2: Dulliau lladd ar gyfer lloi

Ffigur D3: Dulliau lladd ar gyfer defaid

Ffigur D4: Dulliau lladd ar gyfer geifr

Ffigur D5: Dulliau lladd ar gyfer moch

Ffigur D6: Dulliau lladd ar gyfer ceffylau

Ffigur D7: Dulliau lladd ar gyfer cywion ieir bwyta

Ffigur D8: Dulliau lladd ar gyfer ieir hesb

Ffigur D9: Dulliau lladd ar gyfer Tyrcwn

Ffigur D10: Dulliau lladd ar gyfer "Dofednod Eraill"